Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Strategaeth ar gyfer arolygu llythrennedd i ddysgwyr mewn addysg bellach a dysgu yn y gwaith

Hydref 2011

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD
THE CORPORATE STANDARD
Health at Work

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD
GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymuned;
- gwasanaethau awdurdod addysg lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; a
- dysgu troseddwyr.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol**

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad 1

Cyn yr arolygiad 1

Tystiolaeth benodol ar gyfer medrau 1.1.4 a 2.1.2 4

Awgrymiadau ynglŷn â chwestiynau ar gyfer cyfweld am raglenni cymorth llythrennedd 7

Awgrymiadau ynglŷn â chwestiynau ar gyfer gwrando ar ddysgwyr penodol – ffocws ar lythrennedd 8

Cwestiynau i'w gofyn mewn perthynas â Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill 9

Awgrymiadau cyfweld ar gyfer yr uwch reolwr sy'n goruchwylio llythrennedd/y cydlynydd llythrennedd 9

Cwestiynau penodol ar lythrennedd ar gyfer cyfweliadau â rheolwyr canol meysydd dysgu 10

Awgrymiadau ynglŷn â chwestiynau ar gyfer craffu ar bortffolios 11

Awgrymiadau ynglŷn â chwestiynau ar gyfer arsylwi gwersi sefydliadau addysg bellach a dysgu yn y gwaith – ffocws ar lythrennedd 13

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys strategaeth a dulliau ar gyfer arolygu llythrennedd mewn addysg bellach a dysgu yn y gwaith. Mae'n ddogfen fewnol sy'n dod â'r holl ddarnau o arweiniad a chymorth o arolygon blaenorol ar fedrau darllen ac ysgrifennu at ei gilydd, yn ogystal ag arweiniad ar arolygu medrau.

Bydd adrannau yn y ddogfen hon yn newid yn anorfod o ganlyniad i'n profiadau a bydd adrannau newydd y mae angen eu hychwanegu. Bydd y fersiwn ddiweddaraf bob amser yn cael ei storio yn y safleoedd AB a DYYG yn SharePoint. Bydd fersiynau ar wahân o'r dogfennau unigol sydd wedi'u cynnwys yma hefyd.

Cyn yr arolygiad

Methodoleg ar gyfer arolygu llythrennedd

AB a DYYG

Dadansoddi data yn ystod diwrnodau paratoi ACof

Ystyriwch y canlyniadau o asesiadau cychwynnol:

- Faint o ddysgwyr sydd ar bob un o'r chwe lefel: mynediad 1; mynediad 2; mynediad 3; lefel 1; lefel 2; a lefel 3?
- Faint o ddysgwyr sydd naill ai ar ben isaf neu ben uchaf y raddfa?
- A oes mwy o ddysgwyr ar un lefel benodol?

Ystyriwch broffil ymrestriadau Sgiliau Hanfodol Cymru:

- A yw'r data yn cyfateb yn gymharol dda i'r deilliannau o'r asesiadau cychwynnol?
- A oes niferoedd is na'r disgwyl ar lefel 3?
- A oes niferoedd uwch na'r disgwyl ar lefel 1 neu lefel 2?

Dechreuwch ysgrifennu'r SCA ar gyfer 1.1 gan ddefnyddio'r data perfformiad.

Tystiolaeth o'r AHA yn ystod diwrnodau paratoi ACof

O ddadansoddiad o 1.1.4, gwnewch sylwadau yn yr adran Arfarniad yn y SCA ar:

- dystiolaeth o ganran y dysgwyr a nodwyd ar gyfer rhaglenni cymorth llythrennedd;
- tystiolaeth o'r niferoedd sydd wedi manteisio ar gymorth llythrennedd;
- tystiolaeth a ddarparwyd gan y darparwr am safonau mewn llythrennedd;
- tystiolaeth o'r modd y caiff dysgwyr eu cefnogi wrth iddynt ddysgu llythrennedd; a
- thystiolaeth o'r modd y caiff cynnydd dysgwyr mewn medrau llythrennedd ei olrhain a'i gofnodi.

O ddadansoddiad o 2.1.2, gwnewch sylwadau yn yr adran Arfarniad yn y SCA ar:

- ffordd systematig y darparwr o olrhain a monitro cynnydd mewn llythrennedd;
- effeithiolrwydd y rhaglenni cymorth llythrennedd;
- pa mor dda y mae'r darparwr yn cydlynu darpariaeth medrau i gynllunio ar gyfer dilyniant;
- a oes gan y darparwr dystiolaeth o ddysgwyr yn cymhwyso medrau darllen ac ysgrifennu lefel uwch ar draws eu prif gwrs astudio;
- pa mor dda y mae cynlluniau gwaith yn mynd i'r afael ag anghenion pob dysgwr, yn enwedig y rhai sy'n gweithio islaw'r lefelau disgwyliedig a'r dysgwyr mwy abl; a
- pha mor dda y mae'r darparwr yn datblygu medrau llythrennedd deuol ac yn gwneud cysylltiadau ag ieithoedd eraill.

Arweiniad ar gyfer arolygu llythrennedd

Cyn yr arolygiad: Yn ystod diwrnodau paratoi ACof

Cyfrifoldebau'r tîm

- yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yr Acof yn arwain ar 1.1, gan gynnwys 1.1.4; neu
- yn neilltuo arolygydd tîm ar gyfer 1.1.4 a 2.1.2; neu
- yn neilltuo arolygydd tîm ar gyfer 1.1.4 a 2.1.2 sydd â chyfrifoldeb cyffredinol ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2; neu
- yn neilltuo arolygydd tîm ar gyfer 1.1.4, 2.1.2 a 2.3.4.

Cyfrifoldebau'r arolygydd tîm ar gyfer 1.1.4 a 2.1.2

Dylai'r arolygydd tîm ar gyfer 1.1.4 a 2.1.2 fel arfer arsylwi dim mwy na thair sesiwn i roi amser ar gyfer siarad â dysgwyr unigol ac olrhain eu datblygiad medrau.

Dylai'r arolygydd fel arfer drefnu chwech o gyfweliadau 15 munud gyda grwpiau o ddim mwy na dau neu dri dysgwr o ystod o feysydd dysgu a lefelau.

Gweler 'Yn ystod yr Wythnos Arolygu' – dydd Llun

Galwad ffôn i'r darparwr – cynhelir gan y CydAr fel arfer

Gofynnwch am unrhyw ddadansoddiad lefel uchel o nodi llythrennedd, datblygiad neu ddilyniant, e.e:

- dadansoddiad o'r asesiad cychwynnol yn ôl cyrsiau;
- dadansoddiad o asesiadau diagnostig; a
- data ar gyfer unrhyw ailasesiad o grwpiau o ddysgwyr.

Trefnwch gyda'r enwebai fod ystod o bortffolios **cyfredol** ar gael yn yr ystafell sylfaen i'r tîm graffu arnynt.

Dewis portffolios i graffu arnynt: Dulliau craffu

- Mae'r ACof yn nodi chwe dosbarth o chwe maes dysgu gwahanol;
- Mae'r CydAr yn gofyn am gofrestri ar gyfer y dosbarthiadau hyn;
- Mae'r CydAr yn dewis chwe dysgwr oddi ar bob cofrestr ac yn rhoi gwybod i'r enwebai ynglŷn â'r dewis; ac
- Mae'r CydAr yn gofyn i'r enwebai sicrhau bod y portffolios ar gyfer **unrhyw un o'r pedwar** dysgwr a ddewiswyd o bob dosbarth ar gael yn yr ystafell sylfaen ar gyfer y dydd Mawrth a'r dydd Mercher yn ystod wythnos yr arolygiad.

ACof yn dewis meysydd dysgu a dosbarthiadau

- caniatewch ryw bedwar portffolio ar gyfer pob arolygydd ar y tîm;
- dim mwy na dau bortffolio o unrhyw ddosbarth penodol;
- dylai'r portffolios fod ar gael ddydd Mawrth a dydd Mercher yn unig;
- rhaid ymdrin ag ystod o feysydd dysgu;
- rhaid ymdrin ag ystod o lefelau cwrs;
- rhaid cynnwys dosbarthiadau Bagloriaeth Cymru a dosbarthiadau nad ydynt yn rhai Bagloriaeth Cymru; a
- lle bo'n berthnasol, cynnwys cyrsiau blwyddyn a rhai dwy flynedd.

Trefnu amserlenni ar gyfer y tîm

Caniatewch amser craffu ar gyfer pob aelod o'r tîm ar y dydd Mawrth a'r/neu'r dydd Mercher yn ystod yr arolygiad.

Yn ystod wythnos yr arolygiad

Y cyfarfod tîm ddydd Llun

- Enwebai yn darparu gwybodaeth am gymorth dysgu: faint o ddysgwyr y nodwyd bod angen cymorth arnynt a faint ohonynt sydd wedi derbyn.
- Mae'r ACof a'r AT sy'n gyfrifol am 2.1 yn dewis dysgwyr ar draws y meysydd dysgu ar gyfer eu cyfweld.
- Enwebai yn trefnu cyfweliadau gyda'r dysgwyr hyn ar amser cyfleus ar y dydd Mawrth/dydd Mercher. Enwebai yn gofyn i'r dysgwyr gael eu portffolios gyda nhw.
- ACof yn dyrannu portffolios i arolygwyr ar gyfer craffu arnynt.

Dewis dysgwyr ar gyfer eu cyfweld: Dulliau dewis

- **Dewiswch** chwe maes dysgu;
- dewiswch ddosbarth o bob maes dysgu, gan wneud yn siŵr bod y dewis yn cynnwys ystod o lefelau cwrs;
- gofynnwch am gofrestr dosbarth a chanlyniadau asesu cychwynnol ar gyfer pob dosbarth; a
- dewiswch 2 neu 3 dysgwr o bob dosbarth.

Dydd Mawrth/dydd Mercher

- AT sy'n gyfrifol am fedrau yn cyfweld â'r dysgwyr a nodwyd gan ddefnyddio'r taflenni procio ar gyfer craffu ar lyfrau a chyfweliadau medrau â dysgwyr.
- Arsylwi gwersi i gynnwys un sesiwn gymorth.
- Pob AT yn sicrhau bod medrau yn cael eu cynnwys ym mhob sesiwn arsylwi ystafell ddosbarth.
- Pob AT yn craffu ar waith gan ddefnyddio taflenni procio. (Tystiolaeth o graffu ar bortffolios – wedi'i hatodi isod.)

Dydd Mawrth – bore dydd Mawrth

- AT sy'n arwain ar fedrau yn cyfweld â'r rheolwr/cydlynydd medrau hanfodol.
- AT sy'n arwain ar fedrau i arfarnu dogfennau strategol a chynlluniau gweithredu ar gyfer datblygiad medrau dysgwyr.
- Pob AT yn cynnwys cwestiynau llythrennedd yn eu cyfweliadau â rheolwyr canol.
- AT sy'n arwain ar fedrau neu'r AT sy'n arwain ar 2.3.4 yn cyfweld â'r athro sydd yng ngofal cymorth i ddysgwyr.

Prynhawn dydd Mercher/bore dydd Iau

- AT sy'n gyfrifol am fedrau yn arfarnu taflenni craffu ar waith gan bob AT a nodi'r prif ganfyddiadau ar y FfF Mewnbwn.

Tystiolaeth benodol ar gyfer medrau 1.1.4 a 2.1.2

Tystiolaeth benodol i'r arolygydd sydd â chyfrifoldeb am 1.1.4 graffu arni

Rhaglenni Cymorth

- Nifer/Canran y dysgwyr sydd wedi cael eu sgrinio wrth iddynt ddechrau. (Mae'r Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) yn gofyn bod pob dysgwr sy'n dilyn cyrsiau o bum awr neu fwy yr wythnos yn cael asesiad cychwynnol. Felly, dylai'r nifer hon fod yn agos at 100%. Fodd bynnag, rhaid i ni ganiatáu ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n dechrau cyrsiau yn ddiweddarach yn y tymor ac sy'n colli'r asesiad cychwynnol trwy salwch, ac ati. Bydd canrannau islaw 80% yn anfoddhaol.) Gwiriwch bolisi'r darparwr ar gyfer nodi'r dysgwyr hynny na chawsant asesiad cychwynnol a rhowch y manylion i arweinydd Cwestiwn Allweddol 3 os oes angen.
- Nifer/Canran y dysgwyr y nodwyd bod ganddynt fedrau isel mewn llythrennedd (h.y. y rhai y mae canlyniad eu hasesiad cychwynnol islaw lefel eu prif gwrs ac yn arbennig y dysgwyr hynny yr aseswyd eu bod islaw lefel 1).
- Y niferoedd/canrannau sy'n mynychu cymorth y tu allan i'r dosbarth ac yn y dosbarth (gweler y tabl data cymorth i ddysgwyr isod).
- Niferoedd/canrannau'r dysgwyr sy'n aros mewn darpariaeth cymorth y tu allan i'r dosbarth y tu hwnt i'r tymor cyntaf. Os yw dysgwyr wedi tynnu'n ôl neu wedi cwblhau cymorth y tu allan i'r dosbarth, yna mae angen i ni archwilio'r deilliannau

ar gyfer y dysgwyr hynny a pha gymorth arall sydd wedi cael ei roi ar waith, os yw'n berthnasol.
- Deilliannau ar gyfer darparu cymorth, yn cynnwys data cynnydd a data sy'n adlewyrchu effaith darparu'r cymorth ar brif gwrs astudio'r dysgwyr.
- Dadansoddi canlyniadau unrhyw ailasesiad o ddysgwyr. (Mae arweiniad presennol ADAS yn gofyn am ailasesiad o unrhyw ddysgwr y mae ei (h)asesiad cychwynnol islaw L1 sydd **wedi** manteisio ar y cymorth a ddarperir i ddysgwyr ond **nad** yw wedi ennill cymhwyster cyfathrebu/llythrennedd ar un lefel uwchlaw canlyniad eu hasesiad cychwynnol.)

Os yw canran y dysgwyr sy'n manteisio ar gymorth ac sy'n gwneud cynnydd (ac mae angen i chi gymryd samplau o ffeiliau rhai o'r rhain) dros 50%, mae'n 'ddigonol'; os yw dros 65%, gall fod yn 'dda'. Os yw dros 80%, gall fod yn 'rhagorol'. (Gallai graddnodi'r bandiau hyn newid a dylid ystyried cwestiynau mewn perthynas â ble maent yn cyfyngu ar farnau.)

Sgiliau Hanfodol Cymru – Cyfathrebu

- Nifer/canran bresennol y dysgwyr sydd wedi cael eu sgrinio wrth iddynt ddechrau (gweler y pwynt bwled cyntaf uchod).
- Dadansoddiad o'r flwyddyn bresennol gan y darparwr o'r data asesiadau cychwynnol.
- Nifer/canran blwyddyn bresennol y dysgwyr sydd wedi ymrestru ar bob un o'r lefelau o lefel mynediad i L3.
- Data o'r asesiadau cychwynnol ar gyfer y flwyddyn flaenorol.
- Data ymrestru Sgiliau Hanfodol Cymru ar gyfer y flwyddyn flaenorol.
- Niferoedd/canrannau ar gyfer cyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddo ar gyfer cyfathrebu Sgiliau Hanfodol Cymru o'i gymharu â data cenedlaethol.

D.S! Dylid cofnodi'r data hwn ar ffurflen berthnasol Sgiliau Hanfodol Cymru isod a dylid ei rhoi i'r swyddog arweiniol ar gyfer Saesneg/llythrennedd/cyfathrebu ôl-16 ar ôl yr arolygiad ar gyfer ei dadansoddi a'i chymharu â data ledled Cymru.

- Dylai'r darparwr wybod y canrannau hyn. Os na, yna mae'n rhaid nad ydynt yn monitro lefelau medrau eu myfyrwyr.

Samplau o waith

Edrychwch ar sampl o waith i farnu:

- pa mor dda y mae dysgwyr yn cymhwyso eu medrau llythrennedd yng nghyd-destun eu maes galwedigaethol;
- a yw dysgwyr yn dibynnu'n ormodol ar gymorth (fframweithiau ysgrifennu, taflenni gwaith, gormod o gopïo gwybodaeth), heb helpu i ddatblygu eu medr ysgrifennu annibynnol; a
- pha mor dda y mae dysgwyr yn gwneud cynnydd yn datblygu eu medrau llythrennedd.

Olrhain a monitro cynnydd mewn llythrennedd

- Pa mor dda y mae'r darparwr yn nodi'r dysgwyr hynny y mae angen cymorth ar gyfer medrau arnynt ac yn olrhain eu cynnydd?
- Pa mor dda y mae'r darparwr yn olrhain cynnydd dysgwyr unigol yn ogystal â grwpiau o ddysgwyr ar lefel cwrs a maes dysgu/adran?
- Pa mor dda y mae'r darparwr a'r dysgwr yn trafod targedau ar gyfer gwella ac yn eu cofnodi ar gynlluniau dysgu unigol?
- Pa mor dda y mae dysgwyr yn gwybod eu targedau?
- Pa mor dda y mae dysgwyr yn deall mesur cyflawni eu targedau yn llwyddiannus?
- Pa mor dda y mae dysgwyr yn olrhain eu targedau?

Tystiolaeth benodol i'r arolygydd sydd â chyfrifoldeb am lythrennedd 2.1.2 graffu arni

Polisïau

- A oes gan y darparwr bolisi a strategaethau cynhwysfawr a thrylwyr ar lythrennedd?
- A oes blaenoriaeth uchel yn cael ei rhoi i ddatblygu llythrennedd/codi safonau yng nghynllun gwella'r darparwr?
- Pa mor dda y mae'r darparwr wedi cynnwys monitro ac arfarnu lefelau medrau llythrennedd dysgwyr, a'u datblygiad llwyddiannus gan staff, wrth iddo fonitro a chynllunio ar gyfer polisïau a gweithdrefnau gwella?
- A yw'r monitro a'r arfarnu hwn yn cynnwys dadansoddi safonau medrau llythrennedd dysgwyr mewn gwersi ac wrth graffu ar lyfrau/ffolderi/portffolios?
- Pa mor dda y mae polisi marcio ac asesu'r darparwr yn helpu dysgwyr i ddatblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu, myfyrio ar eu gwaith a gwneud cynnydd?

Cysylltwch â'r arweinydd ar agwedd 2.2.2 i ystyried cydlyniad a chysondeb y dull ar gyfer datblygu medrau darllen ac ysgrifennu dysgwyr ar draws pob maes pwnc.

Samplau o gynlluniau gwaith

- Pa mor dda y mae staff wedi ymgorffori medrau mewn profiadau dysgu ar draws pob maes dysgu.
- Pa mor dda yw'r cysylltiadau datblygedig rhwng cynlluniau gwaith pwnc a chymorth llythrennedd penodol (lle bo'n berthnasol) i ddatblygu dilyniant ym medrau darllen ac ysgrifennu dysgwyr.
- Pa mor dda y caiff medrau llythrennedd a enillir mewn dosbarthiadau penodol ar gyfer Sgiliau Hanfodol Cymru eu hatgyfnerthu, eu gwella a'u datblygu ymhellach mewn meysydd gwaith eraill.
- Pa mor dda y mae meysydd dysgu galwedigaethol yn addasu'r dysgu/rhaglenni astudio pan fydd dysgwyr yn gweithio gryn dipyn islaw'r lefelau darllen/ysgrifennu disgwyliedig.
- Pa mor dda y mae meysydd pwnc yn addasu rhaglenni astudio i ddarparu gwaith ar gyfer dysgwyr mwy abl a dawnus ar lefelau cryn dipyn yn uwch mewn medrau darllen ac ysgrifennu, i ymateb i fwy o her (ar gyfer dysgwyr hŷn a mwy abl,

ymestyn ehangder a manylder yr astudiaethau yn ogystal â darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu annibynnol).

Samplau o gynllunio tymor byr, fel cynlluniau gwersi

- Pa mor dda y mae staff yn elwa ar gyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd.
- Pa mor dda y mae staff yn gwahaniaethu mewn sesiynau ar gyfer y rhai y mae angen mwy o gymorth arnynt a'r dysgwyr hynny sy'n fwy abl a dawnus.

Cymorth dysgu

Ystyriwch pa mor dda:

- y caiff gwybodaeth am fedrau darllen ac ysgrifennu dysgwyr ei rhannu rhwng staff;
- y caiff gwybodaeth sy'n ymwneud â chynnydd dysgwyr ar raglenni cymorth ei rhannu gyda staff;
- y mae gwybodaeth yn dylanwadu ar y strategaethau addysgu a dysgu a ddefnyddir gan staff (cysylltwch â'r arweinydd ar y dangosydd ansawdd ar gyfer 2.2);
- y defnyddir gwybodaeth am asesu i ddarparu gwaith sy'n gweddu'n dda i anghenion llythrennedd dysgwyr; ac
- y defnyddir gwybodaeth am asesu i lywio penderfyniadau ynghylch a yw dysgwyr yn aros ar raglenni cymorth.

Awgrymiadau ynglŷn â chwestiynau ar gyfer cyfweld am raglenni cymorth llythrennedd

Tystiolaeth i'w chofnodi ar ffurflen farnau

- Sut caiff cymorth ei gyflwyno? A oes ystod dda o strategaethau a dewisiadau ar gyfer darpariaeth cymorth i ddysgwyr, e.e. cymorth gan gynorthwyydd dysgu yn y dosbarth, y tu allan i'r dosbarth; cymorth un i un; cymorth grŵp?
- Sut ydych chi'n nodi'r dysgwyr y mae angen cymorth arnynt i wella eu medrau llythrennedd?
- Sut ydych chi'n coladu'r data ar gyfer darparu cymorth? A yw'r dysgwyr sy'n dewis peidio â chael cymorth yn ogystal â'r dysgwyr sy'n ei dderbyn yn cael eu holrhain yn briodol? A yw dysgwyr yn cael y cyfle i ymuno â rhaglenni cymorth ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn?
- Pa mor effeithiol yw eich strategaethau ymyrraeth o ran helpu dysgwyr i ddal i fyny â'u cyfoedion?
- A yw cynorthwywyr addysgu a chynorthwywyr dysgu sy'n cyflwyno'r rhaglenni cymorth yn cael hyfforddiant priodol?
- Sut caiff cynnydd dysgwyr ar y rhaglenni cymorth ei gyfleu i reolwyr a staff eraill?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod athrawon ystafell ddosbarth yn ymwybodol o'r strategaethau addysgu a dysgu a'r adnoddau a ddefnyddir yn y rhaglenni cymorth? Pa strategaethau y mae'r darparwr yn eu defnyddio i wneud yn siŵr

eu bod yn defnyddio strategaethau ac adnoddau tebyg yn eu gwersi?
- Sut caiff arfer orau am ddarparu cymorth ei rhannu gyda phob tiwtor ar draws y darparwr?

Awgrymiadau ynglŷn â chwestiynau ar gyfer gwrando ar ddysgwyr penodol – ffocws ar lythrennedd

Tystiolaeth i'w chofnodi ar ffurflen farnau

- A gawsoch asesiad o'r medrau llythrennedd ar ddechrau eich cwrs? A gafodd y canlyniadau eu trafod gyda chi?
- A wnaethoch chi gwblhau asesiad diagnostig hefyd? A ddefnyddiwyd y canlyniadau i nodi targedau yn eich CDU?
- A ydych chi'n gallu cofio beth yw eich targedau? Pa mor aml y maent yn cael eu hadolygu?
- A ydych chi'n gwneud cynnydd yn eich medrau? Sut ydych chi'n gwybod pryd yr ydych wedi bodloni targed?
- Sut mae'r coleg/darparwr hyfforddiant yn eich helpu i wella eich medrau?
- A ydych chi'n gwybod beth mae'n rhaid i chi ei wneud i wella eich medrau darllen ac ysgrifennu ymhellach?
- Ydych chi'n gallu dweud wrthyf am rywbeth mewn llythrennedd, darllen neu ysgrifennu, yr ydych yn awr yn gallu ei wneud nad oeddech yn gallu ei wneud pan wnaethoch chi ddechrau ar y cwrs?
- A ydych chi wedi gallu defnyddio medrau newydd mewn llythrennedd ar draws meysydd eraill o'ch cwrs? Ydych chi'n gallu meddwl am enghreifftiau?
- Pa mor dda y mae tiwtoriaid yn marcio eich gwaith? A ydynt yn cywiro sillafiadau ac atalnodi ar eich cyfer ac yn esbonio lle'r ydych wedi mynd yn anghywir?

Ar gyfer y rhai sydd ar raglenni cymorth

- Sut cafodd eich anghenion eu nodi ar ddechrau'r cwrs? A gawsoch chi ystod dda o ddewisiadau cymorth?
- Pa mor dda y mae'r rhaglen gymorth yn cyd-fynd â'ch prif gwrs astudio? A ydych chi'n gallu defnyddio'r ddarpariaeth ar amseroedd addas? A yw'r adnoddau a ddefnyddir i gefnogi yn gysylltiedig â phwnc eich prif gwrs?
- A yw'r rhaglen wedi helpu i chi wella eich medrau darllen a/neu ysgrifennu? Ydych chi'n gallu rhoi enghraifft o ble y mae wir wedi'ch helpu i gael marc gwell neu wneud y gwaith yn haws i'w ddeall?
- A oes gennych dargedau ar gyfer y sesiynau cymorth? Sut ydych chi'n gwybod beth yr ydych yn mynd i'w ddysgu a sut ydych chi'n gwybod pan fyddwch wedi'i ddysgu?
- A ydych chi'n credu eich bod wedi gwneud cynnydd da ers cymryd rhan yn y rhaglen?
- Pa mor dda y mae'r rhaglen yn bodloni pob un o'ch anghenion a'ch disgwyliadau?

Cwestiynau i'w gofyn mewn perthynas â Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill

OS yw hwn yn drywydd ymholi

Tystiolaeth i'w chofnodi ar ffurflen farnau

- A oes polisi darparwr cyfan ar gyfer cefnogi dysgwyr nad yw Cymraeg neu Saesneg yn famiaith iddynt?
- A yw'r amgylchedd yn groesawgar ar gyfer dysgwyr SSIE?
- Pa mor dda y mae staff yn addasu gwersi ar gyfer dysgwyr SSIE?
- A yw dysgwyr SSIE yn cael cyfle i fanteisio ar yr holl ddarpariaeth a gynigir gan y darparwr? Pa ddewisiadau a gaiff dysgwyr SSIE os nad ydynt yn bodloni'r meini prawf derbyn ar gyfer y cwrs y maent wedi'i ddewis?

Awgrymiadau cyfweld ar gyfer yr uwch reolwr sy'n goruchwylio llythrennedd/y cydlynydd llythrennedd

Tystiolaeth i'w chofnodi ar ffurflen farnau

Dewiswch y cwestiynau mwyaf priodol:

- Faint o staff sy'n gweithio mewn dosbarthiadau llythrennedd ar wahân sy'n meddu ar gymwysterau llythrennedd perthnasol ar lefel 3 a/neu 4?
- Pa gamau a gymerwyd i sicrhau bod pob tiwtor yn deall sut i gefnogi dysgu llythrennedd mewn dosbarth?
- Sut caiff gwybodaeth am asesiad cychwynnol a diagnostig ei rhannu rhwng staff?
- Pa mor dda y mae tiwtoriaid yn defnyddio'r wybodaeth ar gyfer gwahaniaethu mewn gwersi?
- Sut caiff y wybodaeth hon ei monitro a'i holrhain ar draws y sefydliad cyfan?
- A oes cynllun gweithredu ar gyfer datblygu medrau llythrennedd dysgwyr yn systematig ar draws pob un o'u dosbarthiadau?
- Pa mor dda y caiff canlyniadau asesiad cychwynnol dysgwyr a'u dysgu blaenorol eu gweddu i lefel eu cymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru?
- Sut caiff hyn ei fonitro a'i olrhain?
- A oes polisi ar gyfer sicrhau bod gwersi medrau yn rhan ymgorfforedig neu gyd-destunol o gwrs dysgwr?
- Sut caiff y cynnydd y mae dysgwyr yn ei wneud wrth ddatblygu medrau ei gofnodi a'i olrhain?
- Sut caiff gwybodaeth am gynnydd dysgwr mewn medrau ei gyfleu i bob un o'u tiwtoriaid cwrs?
- A ydych chi'n gwybod pa mor dda y mae dysgwyr yn gwneud cynnydd, gan gynnwys y rhai sy'n cael cymorth targedig neu gymorth estynedig?
- A yw staff yn gweithio fel tîm i gefnogi datblygiad medrau llythrennedd?

- A ydych chi wedi archwilio medrau llythrennedd ar draws cyrsiau astudio/meysydd dysgu i sicrhau bod pynciau yn nodi ac yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau llythrennedd?
- A oes dulliau cyffredin cytûn ar gyfer datblygu medrau llythrennedd dysgwyr? Os felly, beth ydynt?
- Pa mor effeithiol yw eich cynlluniau gweithredu a'ch arfarniadau o gynnydd ym medrau llythrennedd dysgwyr?
- Pa hyfforddiant proffesiynol y mae staff wedi ymgymryd ag ef i ddatblygu medrau llythrennedd dysgwyr?
- A oes gennych raglen gynlluniedig i adolygu ac arfarnu effaith mentrau llythrennedd/ y polisi llythrennedd? A ydych yn gofyn am safbwyntiau dysgwyr ar lythrennedd fel rhan o'r adolygiad hwn?
- Sut ydych chi'n defnyddio gwybodaeth o osod targedau i gynhyrchu cymorth ychwanegol amserol ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn gwneud cynnydd yn unol â disgwyliadau?
- Sut ydych chi'n cynnwys staff a dysgwyr mewn olrhain cynnydd a chynllunio ar gyfer gwella yn y tymor byr a'r tymor hwy?
- Pa hyfforddiant ydych chi'n ei ddarparu ar gyfer staff cymorth ac anogwyr dysgu fel bod ganddynt wybodaeth gadarn am fentrau llythrennedd wrth helpu cefnogi dysgwyr?

Cwestiynau penodol ar lythrennedd ar gyfer cyfweliadau â rheolwyr canol meysydd dysgu

Tystiolaeth i'w chofnodi ar ffurflen farnau

Dewiswch y cwestiynau mwyaf priodol:

- Pa mor dda ydych chi'n gweithio gyda'r cydlynydd llythrennedd i gynllunio cyfleoedd i ddysgwyr gymhwyso a gwella eu medrau mewn darllen ac ysgrifennu?
- Pa mor dda ydych chi'n gweithio gyda'r cydlynydd llythrennedd a/neu'r arweinydd pwnc Cymraeg neu Saesneg i gytuno ar strategaethau addysgu a dysgu cyffredin ar gyfer llythrennedd?
- A yw staff yn eich maes pwnc yn deall beth yw'r ffordd orau o gefnogi'r rhai sydd â medrau llythrennedd isel?
- Pa mor effeithiol yw polisi llythrennedd y darparwr mewn gwella medrau llythrennedd dysgwyr yn eich maes pwnc?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod eich staff yn addysgu confensiynau gwahanol fathau o ysgrifennu a ddefnyddir yn eich pwnc?
- Sut ydych chi'n atgyfnerthu ac yn gwella'r medrau llythrennedd a enillir mewn gwersi Cymraeg neu Saesneg yn eich pwnc?
- Pa mor dda ydych chi'n addasu rhaglenni astudio pan fydd dysgwyr yn gweithio gryn dipyn islaw'r lefelau medrau darllen/ysgrifennu disgwyliedig?
- Pa mor dda ydych chi'n addasu rhaglenni astudio i ddarparu gwaith ar gyfer dysgwyr mwy abl a dawnus ar lefelau gryn dipyn yn uwch mewn medrau darllen/ysgrifennu, i ymateb i fwy o her (ymestyn ehangder a manylder yr

astudiaethau yn ogystal â darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu annibynnol)?
- A ydych chi'n ymwybodol o'r strategaethau addysgu a'r dysgu a'r adnoddau a ddefnyddir yn y rhaglenni cymorth llythrennedd? A ydych chi'n defnyddio strategaethau ac adnoddau tebyg yn eich gwersi?

Awgrymiadau ynglŷn â chwestiynau ar gyfer craffu ar bortffolios

Tystiolaeth i'w chofnodi ar ffurflen farnau

Medrau darllen a meddwl	
Tystiolaeth o ystod dda o ddeunyddiau darllen	**A oes tystiolaeth o:** wahanol ffynonellau a fformatau, testunau o wahanol gymhlethdodau?
Medrau darllen/meddwl cymhleth	**A oes tystiolaeth o:** symud oddi wrth ddealltwriaeth lythrennol, dod o hyd i ffeithiau; dadansoddi, cyfosod ac aildrefnu syniadau neu wybodaeth eglur mewn darn, nodi patrymau; defnyddio rhesymu a dod i gasgliad, gwneud rhagdybiaethau, canfod ystyron nad ydynt yn amlwg, llunio casgliadau; symud tuag at fwy o fedrau darllen lefel uwch o arfarnu darn neu grŵp o destunau, cysylltu â phrofiad/gwybodaeth flaenorol, ystyried tystiolaeth a dibynadwyedd; gwerthfawrogi a dadansoddi cynnwys ac arddull, dadl/trafodaeth, technegau awduron?
Ystod o strategaethau adalw gwybodaeth	**A oes tystiolaeth o:** amlygu, crynhoi, rhoi testun mewn dilyniant trwy aildrefnu paragraffau neu greu siart llif/bwrdd stori, defnyddio cyfeirlyfrau, defnyddio mynegai, llyfryddiaeth, gridiau gwneud nodiadau i ddethol a threfnu gwybodaeth?
Ystod o strategaethau i ddarllen at wahanol ddibenion	e.e. llithrddarllen, bwrw golwg – marcio'r testun, amlygu, gwneud dehongliadau amgen?
Cymhwyso dealltwriaeth i gyd-destunau ehangach, bywyd bob dydd, sefyllfa newydd	
Medrau ysgrifennu	
Sillafu	**A oes tystiolaeth o:** gamgymeriadau sillafu yn cael eu codi trwy farcio; geiriau anghywir yn cael eu dysgu a'u defnyddio'n gywir wrth ysgrifennu yn y dyfodol; cydnabod y gwahaniaethau rhwng camgymeriadau sillafu mewn geiriau cyffredin a chamgymeriadau sillafu mewn geiriau technegol ar lefel cwrs; strategaethau ar gyfer gwella sillafu; llai o gamgymeriadau wrth i'r cwrs fynd yn ei flaen?

Atalnodi	Dylai'r camgymeriadau fod yn briodol i lefel y dysgwr. Ar lefel mynediad 3 a phob lefel uwch: mae priflythrennau ac atalnodau llawn, marciau cwestiwn ac ebychnodau yn gywir. Ar L1 a phob lefel uwch; mae comas a chollnodau yn gywir. Ar lefel 2 ac yn uwch: mae atalnodi lefel uwch fel gwahanodau, hanner colonau a cholonau yn gywir. **A oes tystiolaeth o:** gamgymeriadau atalnodi yn cael eu cywiro; nifer y camgymeriadau yn lleihau trwy'r portffolio; gwaith yn dangos defnydd ac ystod dda o atalnodi?
Gramadeg	Dylai'r camgymeriadau fod yn briodol i lefel y dysgwr. Ar lefel mynediad 3 a phob lefel uwch: mae'r ysgrifennu mewn brawddegau cyflawn a'r cytundeb rhwng y goddrych a'r ferf yn gywir. Ar L1 a phob lefel uwch: mae amser y ferf a threfn y geiriau, ystod o gysyllteiriau a brawddegau hwy yn gywir. Ar L2 ac yn uwch: defnyddir rhagenwau a brawddegau cymhleth yn gywir i wneud yr ysgrifennu'n ddiddorol a chywir. **A oes tystiolaeth o:** gamgymeriadau gramadegol yn cael eu cywiro; nifer y camgymeriadau yn lleihau trwy'r portffolio a'r gwaith yn dangos gramadeg sy'n datblygu ac ystod o ramadeg?
Ystod ac ansawdd y tasgau ysgrifennu estynedig at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd	**A oes tystiolaeth o:** ffurfiau amrywiol o ysgrifennu trwy ddefnydd cywir o'r chwe phrif fath o destun ffeithiol (adrodd; cyfarwyddyd; adroddiad anghronolegol; esbonio; perswadio; trafod)?
Defnydd da o iaith i gyflwyno deunydd yn briodol	**A oes tystiolaeth o:** Ystod dda o ddewis geiriau yn cael eu defnyddio'n briodol at ddiben y testun a'i gynulleidfa; geirfa helaeth ac amrywiol?
Awgrymiadau eraill ynghylch medrau cyfathrebu cyffredinol	
A oes lefel gynyddol o her yn y testunau a roddir i ddysgwyr eu darllen, a dewis o dasgau ysgrifennu?	
Cyflwynir gwaith yn ddestlus ac mae'n defnyddio fformat priodol.	

Marcio ac asesu
A yw'r marcio yn gyfoes? • A oes llawer o fylchau, neu waith ar goll yn llyfrau dysgwyr? A yw'r tiwtor yn sylwi ar hyn? • A oes polisi marcio cyffredin o fewn pynciau a rhyngddynt, nid yn unig mewn graddio ond o ran cywiro sillafu, gwella cyflwyniad, ac ati? • A yw'r sylwadau ar waith dysgwyr yn ddiagnostig ac a ydynt yn dangos dysgwyr sut i wella? • A yw dysgwyr yn mynd i'r afael â sylwadau tiwtoriaid, e.e. i ailddrafftio, cywiro neu gwblhau gwaith? • A oes hunanfarcio neu farcio cymheiriaid a hunanasesu neu asesu cymheiriaid?

Awgrymiadau ynglŷn â chwestiynau ar gyfer arsylwi gwersi sefydliadau addysg bellach a DYYG – ffocws ar lythrennedd

Tystiolaeth i'w chofnodi ar ffurflen farnau

Pa mor dda y mae dysgwyr...?

- yn gwrando ac yn ymateb i ddysgwyr a phobl eraill (gwneud cyfraniadau sylweddol i drafodaethau, a chyfathrebu'n glir ac yn effeithiol mewn ffordd sy'n addas i'r pwnc, y gynulleidfa a'r diben)?
- yn holi cwestiynau ac yn meddwl am gwestiynau drostynt eu hunain?
- yn meddu ar ddealltwriaeth fanwl ac eang (deall cysyniadau a syniadau allweddol, gwneud cysylltiadau rhwng gwahanol agweddau ar y gwaith, a deall y darlun mawr)?
- yn cymhwyso eu dealltwriaeth i gyd-destunau ehangach, bywyd bob dydd, a sefyllfaoedd newydd?
- yn lleoli, dewis a defnyddio gwybodaeth (dewis, crynhoi, nodi pwyntiau allweddol, a chyfosod gwybodaeth)?
- yn ymateb i syniadau a gwybodaeth gan ddefnyddio medrau darllen cymhleth, ar lafar ac yn ysgrifenedig (nodi patrymau, llunio casgliadau, trafod ac ystyried ystod o ddehongliadau)?
- yn ymchwilio i atebion o ystod o ffynonellau, ystyried tystiolaeth a'i dibynadwyedd, a phwyso a mesur y manteision a'r anfanteision?
- yn ymdopi â gofynion tasgau/gweithgareddau darllen ac ysgrifennu?
- yn trefnu ac yn cyflwyno syniadau a gwybodaeth yn glir/yn effeithiol yn eu hysgrifennu (cynllunio, prawfddarllen a golygu/diwygio gwaith)?
- yn ysgrifennu'n gywir (gyda sillafu, atalnodi, gramadeg a geirfa gywir, a gweddu'r arddull yn ôl y diben a'r gynulleidfa)?
- yn dangos ystod o ysgrifennu estynedig da, gwaith creadigol, gwahanol fathau o destun ffeithiol a datrys problemau?

Pa mor dda y mae'r addysgu...?

- yn dangos defnydd da o iaith i helpu datblygu medrau darllen ac ysgrifennu dysgwyr?
- yn defnyddio chwarae rôl, drama a gwaith grŵp cydweithredol cyn ysgrifennu i ymestyn meddwl dysgwyr?
- yn darparu cyfleoedd ar gyfer trafod?
- yn defnyddio cwestiynau treiddgar i wella dealltwriaeth dysgwyr?
- yn helpu dysgwyr i ymhelaethu ar eu hatebion a gwneud cysylltiadau dysgu?
- yn datblygu medrau darllen lefel uwch dysgwyr (i helpu dysgwyr i ddefnyddio eu medrau deall ac adalw gwybodaeth i gael a chyfosod gwybodaeth o ystod o destunau, siartiau, tablau, graffiau, ac ati, llithrddarllen, bwrw golwg, a rhesymu, dod i gasgliad a rhagweld)?
- yn addysgu medrau darllen ac ysgrifennu yn uniongyrchol (er enghraifft, datblygu medrau prawfddarllen ac ailddrafftio dysgwyr; helpu i sillafu terminoleg sy'n benodol i bwnc; defnyddio sgaffaldio/modelu i gefnogi datblygiad medrau ysgrifennu; a rhoi arweiniad penodol ar sut i ddatblygu a chymhwyso medrau llythrennedd deuol)?
- yn annog darllen mewn pâr a grŵp, sy'n helpu cyfranogiad 'gweithredol' mewn gweithgareddau darllen?

A oes lefel gynyddol o her mewn testunau a roddir i ddysgwyr eu darllen, a dewis o dasgau ysgrifennu?

Pwyntiau llythrennedd eraill

- Pa mor dda y mae amgylchedd yr ystafell ddosbarth yn dathlu ac yn hyrwyddo medrau llythrennedd (e.e. arddangosiadau o eirfa sy'n benodol i bwnc, ymatebion enghreifftiol ar gyfer tasgau ysgrifennu)?
- A yw'r addysgu yn defnyddio cyfleoedd addas i ddatblygu medrau darllen ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm?
- Pa mor dda y mae'r medrau darllen ac ysgrifennu sydd eu hangen ar gyfer tasgau penodol wedi cael eu haddysgu?